

Cwestiynau Cyffredin am Feysydd Parcio Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Cwestiynau

Pam mae'r Brifysgol wedi cyflwyno taliadau yn ei meysydd parcio?	3
Pam mae'r Brifysgol wedi cyflwyno taliadau parcio nawr?	3
Rwyf yn aelod o staff, faint bydd yn rhaid i mi dalu am fy nhrwydded?	3
Rwyf yn fyfyrwr, faint bydd yn rhaid i mi dalu am drwydded?	3
Sut mae gwneud cais am drwydded?	3
Pryd gallaf brynu trwydded?.....	3
A gaf ledu costau prynu'r drwydded?.....	4
Nid oes gennyf drwydded, a gaf barcio ar y campws er hynny?	4
A fydd yn rhaid i mi roi trwydded yn fy sgrin wynt?	4
Pryd bydd rheolaeth y maes parcio yn cael ei gorfodi?.....	4
Beth fydd yn digwydd os byddaf yn parcio ar y campws heb dalu?	4
A oes cyfyngiadau ar ble gall staff a myfyrwyr barcio?.....	4
A gaf archebu parcio i ymwelwyr ar y campws?.....	5
Pwy fydd yn gorfodi'r trefniadau parcio?	5
Â phwy dylwn gysylltu os nad wyf yn hapus gyda'r gwasanaeth?	5
Rwyf yn fyfyrwr, beth yw cyfeirnod fy nghwrs?	5
Sut bydd y gwasanaeth parcio a theithio yn gweithio yng Nghaerfyrddin?	5
Pam mai yng Nghaerfyrddin yn unig y ceir Gwasanaeth Parcio a Theithio?	5
Deiliaid bathodynau glas.....	5
Ble bydd fy nhrwydded yn rhoi'r hawl i mi barcio?	5
Sut mae'r incwm o'r trwyddedau parcio'n cael ei rannu rhwng y Brifysgol ac Euro Car Parks?	6
Os bydd staff yn torri'r rheolau, at bwy yr aiff y dirwyon? Sut maent yn cael eu talu? Ydynt yn gallu arwain at achos llys?	6
Gofynnwyd i ni am eglurder ynghylch defnyddio elw o'r taliadau parcio, ac a all adrannau wneud cais am brosiectau gwyrdd, er enghraifft Peirianeg, datblygu cerbyd trydan, ar gyfer prosiectau myfyrwyr.....	6
Pam bod modd i ni gofrestru 4 cerbyd ond cael 2 yn unig yn weithredol (gyda'r ddealltwriaeth mai 1 yn unig all ddod ar y campws ar unrhyw adeg).....	6
A fydd talu ac arddangos ar gael? Mae gan rai aelodau 2 gar, (gŵr a gwraig yn dod i mewn) ac mae un yn talu'n ddyddiol os na allant ddod i mewn gyda'i gilydd.....	6

Ydy'r wefan yn ddiogel?.....	7
Rwy'n fyfyrwr ac nid wyf yn gwybod cod fy nghwrs. Ble gallaf i ddod o hyd iddo?	7
Rwy'n llogi cerbyd ar ran y Brifysgol, a fydd y cerbyd hwn yn cael ei ddirwyo?	7
Allaf i hawlio taliadau talu ac arddangos neu dalu drwy'r ffôn yn ôl ar fy nhreuliau?	7
Beth yw'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr y gampfa?.....	7
Beth yw'r trefniadau i ymwelwyr?.....	7
A fydda i'n gallu gadael fy nghar ar y campws dros nos?	8
Roeddwn i'n meddwl y byddai'r opsiwn i dalu'n fisol yn cael ei reoli drwy Ddebyd Uniongyrchol. Pam mae hyn wedi newid?	8
Byddwch yn cadw holl fanylion fy ngherdyn ar ffeil yn cynnwys fy nghod diogelwch 3 digid. Pa mor ddiogel mae fy nata?.....	8
Sut gallaf i wirio bod fy nghyfrif yn gyfredol?	9
Sut gallaf i apelio fy nhocyn	9

Pam mae'r Brifysgol wedi cyflwyno taliadau yn ei meysydd parcio?

Mae rheoli parcio wedi dod yn her gynyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda phob campws yn wynebu ei broblemau penodol. Ein blaenoriaeth wrth gyflwyno'r system rheoli parcio yw sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd diogel a hygyrch i'n staff, ein myfyrwyr a'n hymwelwyr.

Mewn nifer o leoliadau, mae'r galw'n fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael. Yn 2016/17, bu dros 2,000 o geisiadau am drwyddedau ar gyfer 340 o leoedd ar gampws Caerfyrddin.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno taliadau parcio i dalu am y gwasanaethau sydd eu hangen i wella diogelwch a hygyrchedd ar y campysau.

Pam mae'r Brifysgol wedi cyflwyno taliadau parcio nawr?

Rydym wedi gohirio cyflwyno system rheoli parcio tan nawr, fodd bynnag, bu ystod o faterion mewn perthynas â pharcio ar bob un o'n campysau ers nifer o flynyddoedd y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â nhw bellach.

Rwyf yn aelod o staff, faint bydd yn rhaid i mi dalu am fy nhrwydded?

Bydd y tariffau am drwydded flynyddol, sy'n dechrau ar gyfradd sy'n cyfateb i tua 23c y diwrnod ac sy'n berthnasol o 1^{af} Hydref 2017, fel a ganlyn:

Band	Incwm gros	Math o drwydded	Tâl misol cyfwerth*	Pris Trwydded Flynyddol
Cyfradd isaf	0 – £18,000	Staff	£4.17	£50
Cyfradd safonol	£18,001 – £40,000	Staff	£8.33	£100
Cyfradd uwch	£40,001 ac yn uwch	Staff	£12.50	£150
Cyfradd uchaf		UDRh	£29.17	£350

Rwyf yn fyfyrwr, faint bydd yn rhaid i mi dalu am drwydded?

Ni fydd y Brifysgol yn codi tâl am drwyddedau parcio i fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn academiaidd 2017/18 tra'n bod yn dal i ymwneud â'r materion sydd wedi eu hadnabod.

Sut mae gwneud cais am drwydded?

Cewch wneud cais am drwydded parcio drwy borth ar-lein Euro Car Parks:

<http://ecp.permit.eurocarparks.com>

Pryd gallaf brynu trwydded?

Os buoch yn aelod cyfredol o staff yn ystod cyfnod lansio'r mesurau yn Hydref 2017, rhaid i chi brynu trwydded erbyn 10^{fed} Hydref. Os dechreuoch ar ôl y dyddiad hwn, cechwch brynu trwydded am bris gostyngol pan ddymunwch parcio ar y safle.

A gaf ledu costau prynu'r drwydded?

Cewch, gellir talu am drwyddedau drwy randaliadau misol. Gellir dod o hyd i fanylion am sut i wneud hyn ar <http://ecp.permit.europarc.com>

Nid oes gennyf drwydded, a gaf barcio ar y campws er hynny?

Cewch, bydd gan bob maes parcio heb glwyd gyfleuster i'ch galluogi i dalu â ffôn. Mae gan gampws Caerfyrddin peiriannau talu ac arddangos yn ogystal. Bydd y rhain ar gael yn Llambed hefyd yn fuan.

Os dewiswch barcio ar y campws heb drwydded, bydd y taliadau canlynol yn berthnasol:

- Hyd at 30 munud – Am ddim i ganiatáu amser gollwng e.e. aseiniadau neu fynd â phlant i'r feithrinfa
- Hyd at 4 awr - £1.50
- Hyd at 8 awr - £2.50

A fydd yn rhaid i mi roi trwydded yn fy sgrin wynt?

Na fydd, yn dilyn adborth o brosiect peilot Caerfyrddin yn 2016/17, rydym wedi trefnu system sy'n gweithio drwy sganio rhifau cerbydau. Mae hyn yn cael gwared â'r angen i feddu ar drwydded gorfforol a'r peryg y bydd yn cwmpo oddi ar eich sgrin wynt a heb gael ei gweld gan weinydd y maes parcio.

Pryd bydd rheolaeth y maes parcio yn cael ei gorfodi?

Bydd gorfodaeth yn cael ei gweithredu ym meysydd parcio'r Brifysgol rhwng 08:00 – 16:00, dydd Llun i ddydd Gwener. Ni fydd gorfodaeth yn weithredol ar y penwythnosau ond bydd yn ystod cyfnodau gwyliau.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn parcio ar y campws heb dalu?

Efallai y rhoddir Hysbysiad Tâl Parcio (PCN) mewn achosion ble mae cerbyd naill ai heb ganiatâd i barcio neu wedi ei barcio yn groes i'r arwyddion lleol. Gosodir tâl o £80 am PCN, a ostyngir i £40 os y'i telir yn gynnar.

A oes cyfyngiadau ar ble gall staff a myfyrwyr barcio?

Er mwyn sicrhau ateb ymarferol i reoli'r meysydd parcio, rhennir lleoedd ar y campysau yn barthau fel y'u gwelir ar y [map \(http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/environment-unit/Parking-eng.pdf\)](http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/environment-unit/Parking-eng.pdf). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mannau dynodedig i staff (â thrwydded i staff).
- Mannau dynodedig i ddeiliaid bathodynnau glas (wedi eu nodi yn y meysydd parcio).
- Mannau a rennir rhwng staff ac ymwelwyr y gofynnir iddynt dalu am eu lle naill ai drwy drwydded neu drwy dalu ac arddangos / talu â ffôn.
- Mannau dynodedig i fyfyrwyr preswyl (parcio am ddim â thrwydded i fyfyrwyr).
- Mannau dynodedig i fyfyrwyr dydd (dibreswyl) (parcio am ddim â thrwydded i fyfyrwyr).

A gaf archebu parcio i ymwelwyr ar y campws?

Cewch, gellir archebu hyd at 20 lle bob dydd drwy'r Tîm Gweithrediadau. Mae'r lleoedd hyn ar gael am hyd at 08:00 awr ar y diwrnod pan fydd angen y lle. Bydd angen i gerbydau sydd wedi eu parcio mewn lleoedd a archebir ddangos naill ai trwydded i ymwelwyr neu fod wedi talu â ffôn neu dalu ac arddangos.

Gellir dod o hyd i drwyddedau i ymwelwyr oddi wrth Weithrediadau ac anfonir y costau yn ôl i'r adran, wedi'i seilio ar y cyfraddau talu â ffôn uchod. Nod y tâl bach hwn yw sicrhau y defnyddir lleoedd a archebir, ac nid archebir lleoedd ar hap.

Pwy fydd yn gorfodi'r trefniadau parcio?

Bydd contractwr trydydd parti, Euro Car Parks yn gorfodi'r trefniadau parcio. Nhw fydd yn gyfrifol am yr holl weinyddu, caniatáu a gorfodi.

Â phwy dylwn gysylltu os nad wyf yn hapus gyda'r gwasanaeth?

Dylid cyfeirio pob gohebiaeth i Euro Car Parks yn y lle cyntaf. Cewch e-bostio Euro Car Parks ar seasontickets@eurocarparks.com. Os bydd angen i chi siarad â rhywun am y gwasanaeth a ddarperir gan Euro Car Parks, e-bostiwch parking@uwtsd.ac.uk os gwelwch yn dda.

Rwyf yn fyfyrwr, beth yw cyfeirnod fy nghwrs?

Cyfeirnod y cwrs yw cyfeirnod pedwar digid UCAS. Gellir dod o hyd i hwn ym mhrosiectws PCYDDS neu ar wefan UCAS. Os nad oes cod UCAS gennych, nodwch deitl eich cwrs os gwelwch yn dda.

Sut bydd y gwasanaeth parcio a theithio yn gweithio yng Nghaerfyrddin?

Gellir dod o hyd i fanylion am y gwasanaeth parcio a theithio yng Nghaerfyrddin yma: <http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/environment-unit/Carmarthen-Park-&-Ride-Schedule.pdf>

Pam mai yng Nghaerfyrddin yn unig y ceir Gwasanaeth Parcio a Theithio?

Prosiect peilot yw'r gwasanaeth Parcio a Theithio yng Nghaerfyrddin sy'n asesu lefel y galw a'i hyfywedd. Dewiswyd Caerfyrddin gan mai yma y mae'r pwysau ar y parcio yn drymaf. Os defnyddir y peilot yn ddigon dda i'w ystyried yn llwyddiant, defnyddir y wybodaeth i hysbysu cyfleusterau parcio a theithio mewn mannau eraill.

Deiliaid bathodynau glas

Gall deiliaid bathodynau glas barcio am ddim ar y campysau mewn mannau dynodedig.

Ble bydd fy nhrwydded yn rhoi'r hawl i mi barcio?

Mae pob trwydded yn drosglwyddadwy rhwng campysau.

Er mwyn sicrhau ateb ymarferol i reoli parcio ar y campysau, rhennir lleoedd ar y campysau yn barthau fel y'u gwelir ar y [map](#) (eng) neu'r [map](#) (cym). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mannau dynodedig i staff (â thrwydded i staff).
- Mannau dynodedig i ddeiliaid bathodynnau glas (wedi eu nodi yn y meysydd parcio).
- Mannau a rennir rhwng staff ac ymwelwyr y gofynnir iddynt dalu am eu lle naill ai drwy drwydded neu drwy dalu ac arddangos / talu â ffôn.
- Mannau dynodedig i fyfyrwyr preswyl (parcio am ddim â thrwydded i fyfyrwyr).
- Mannau dynodedig i fyfyrwyr dydd (dibreswyl) (parcio am ddim â thrwydded i fyfyrwyr).

Sut mae'r incwm o'r trwyddedau parcio'n cael ei rannu rhwng y Brifysgol ac Euro Car Parks?

Nid oes cyfran sefydlog o incwm y trwyddedau'n cael ei rhannu rhwng y Drindod Dewi Sant ac Euro Car Parks. Mae'r Brifysgol yn talu cost fisol am wasanaethau a gyflenwir. Dychwelir yr holl ffioedd trwyddedau a dirwyon (ar ôl tynnu ffi weinyddol) i'r Brifysgol.

Os bydd staff yn torri'r rheolau, at bwy yr aiff y dirwyon? Sut maent yn cael eu talu? Ydynt yn gallu arwain at achos llys?

Euro Car Parks fydd yn gweinyddu'r hysbysiadau taliadau parcio. Wedi tynnu ffi weinyddol, dychwelir yr arian hwn i'r Brifysgol. Mae modd talu dirwyon yn uniongyrchol i ECP. Maent yn gallu arwain at achos llys.

Gofynnwyd i ni am eglurder ynghylch defnyddio elw o'r taliadau parcio, ac a all adrannau wneud cais am brosiectau gwyrdd, er enghraifft Peirianeg, datblygu cerbyd trydan, ar gyfer prosiectau myfyrwyr.

Ni ddisgwylir i'r prosiect greu gwarged yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, byddai diddordeb gan y Tîm Cyflawni Cynaliadwyedd glywed am unrhyw brosiectau i helpu i fynd i'r afael â pharcio a hyrwyddo teithio cynaliadwy yn sustainability@pcydds.ac.uk

Pam bod modd i ni gofrestru 4 cerbyd ond cael 2 yn unig yn weithredol (gyda'r ddealltwriaeth mai 1 yn unig all ddod ar y campws ar unrhyw adeg).


Cyfyngiad o ran y system yw hyn.

A fydd talu ac arddangos ar gael? Mae gan rai aelodau 2 gar, (gŵr a gwraig yn dod i mewn) ac mae un yn talu'n ddyddiol os na allant ddod i mewn gyda'i gilydd.

Bydd talu ac arddangos ar gael yng Nghaerfyrddin a Llambod. Bydd dewis i dalu drwy ffôn ar bob campws.

Ydy'r wefan yn ddiogel?

Pan fyddwch wedi mewngofnodi, mae'r wefan yn ddiogel, fel y gwelir yn y ciplun isod. Mae'n bosibl y bydd angen adnewyddu'ch porwr. Yn yr achos hwn gwasgwch Ctrl ac F5 gyda'i gilydd.



Rwy'n fyfyrwr ac nid wyf yn gwybod cod fy nghwrs. Ble gallaf i ddod o hyd iddo?

Gallwch deipio cod cwrs UCAS neu, os nad yw hwn ar gael, deitl y cwrs.

Rwy'n llogi cerbyd ar ran y Brifysgol, a fydd y cerbyd hwn yn cael ei ddirwyo?

Os bydd cerbydau llog yn cael eu cadw ar y safle, dylai'r sawl sy'n gyfrifol am logi'r cerbyd gael trwydded ymwelwyr gan yr Adran Gweithrediadau neu'r Dderbynfa. Bydd hon yn cael ei dilysu am holl gyfnod contract llogi'r cerbyd.

Allaf i hawlio taliadau talu ac arddangos neu dalu drwy'r ffôn yn ôl ar fy nhreuliau?

Na allwch.

Beth yw'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr y gampfa?

1. Bydd yr aelodau sy'n talu ar restr a gofrestrir gydag ECP ac yn cael parcio'n gynhwysol.
2. Bydd archebion a delir cyn y diwrnod gan y rheini sy'n defnyddio'r cyfleusterau eu hun, yn cael eu hanfon drwyddo ymlaen llaw ac yn rhad ac am ddim.
3. Bydd archebion a delir ar y diwrnod yn cael trwydded ymwelwyr.
4. Bydd digwyddiadau mawr yn cael eu harchebu drwy'r Adran Cynadleddau.
5. Os bydd unigolyn / sefydliad yn archebu lle ac wedyn yn codi tâl ar bobl eraill i'w ddefnyddio, neu am wasanaeth a gyflenwir yn y lle hwnnw, byddant yn talu cyfradd barcio'r staff.

Beth yw'r trefniadau i ymwelwyr?

1. Bydd y dderbynfa yn rheoli cadw lle i ymwelwyr yn yr un modd ag yn flaenorol.
2. Cedwir llyfr â dalennau triphlyg yn y dderbynfa a gellir ei ddefnyddio i gyhoeddi trwyddedau ymwelwyr. Rhaid nodi'r dyddiad a'r amser ar y rhain er mwyn sicrhau rhyddhau lleoedd cyn gynted â phosibl.
3. Ni chodir dirwy ar gerbydau â thrwydded ymwelwyr os ydynt wedi'u parcio'n ddiogel ac yn ystyriol, ac yn unol ag arwyddion y maes parcio.
4. Adolygir y trefniadau yn y flwyddyn newydd.

5. Gellir cadw lleoedd yn ôl disgrisiwn y Dderbynfa.
6. Eir ati i farcio llinellau ar gyfer lleoedd parcio ymwelwyr yn hwyrach eleni. Cyflawnir y gwaith mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Strategaeth Parcio.

A fydda i'n gallu gadael fy nghar ar y campws dros nos?

Mae'r cyfyngiadau parcio'n weithredol 0800 - 1600 yn unig, felly ni chyhoeddir tocynnau y tu allan i'r amseroedd hyn.

Roeddwn i'n meddwl y byddai'r opsiwn i dalu'n fisol yn cael ei reoli drwy Ddebyd Uniongyrchol. Pam mae hyn wedi newid?

Yn anffodus nid oedd yr amser rhwng dyfarnu'r contract a'r system yn mynd yn fyw yn caniatáu trefnu system ddebyd uniongyrchol. Ni ddaeth hyn i'r amlwg tan ar ôl dyfarnu'r contract ac arweiniodd anawsterau gyda'r trydydd parti oedd yn adeiladu'r wefan at oedi annisgwyl. Bu rhaid i ni ddewis ateb yr oedd modd ei weithredu'n gyflym.

Byddwch yn cadw holl fanylion fy ngherdyn ar ffeil yn cynnwys fy nghod diogelwch 3 digid. Pa mor ddiogel mae fy nata?

Ni fydd ECP a'r Brifysgol yn cadw manylion unrhyw gardiau. Rydym ni'n defnyddio SagePay (a ddefnyddir yn aml ar gyfer trafodion ar-lein un-tro a thaliadau digyswllt mewn siopau) fel mecanwaith cymryd taliadau a nhw sy'n storio unrhyw wybodaeth. Mae SagePay yn cydymffurfio â Safon Diogelwch Data (DSS) Diwydiant y Cardiau Talu (PCI) a deallwn eu bod ag un o'r achrediadau uchaf.

Pa warant sydd gennyf y cymerwch yr union swm y dylech ei gymryd ac ar yr adeg y dylech ei gymryd?

Pan fydd y taliad cylchol wedi'i osod yn ei le a'i awdurdodi, fe'i cedwir o fewn SagePay ac nid oes modd newid y swm. Wedyn bydd Euro Car Parks yn anfon cais at SagePay ar ddiwrnod cyntaf y mis. Rhif alffaniwmerig nad oes unrhyw berthynas rhyngddo a'r swm sydd i'w dalu yw'r cais hwnnw.

Pan ddaw'n amser gorffen fy nhaliad i Euro Car Parks, ddylwn i ddisgwyl unrhyw broblemau ... er enghraifft faint o rybudd mae angen ei roi ac ati?

Ond bod rhybudd wedi'i ddarparu bum niwrnod gwaith cyn diwrnod 1af y mis mae modd atal y taliad.

Mae gwarant Debyd Uniongyrchol yn f'amddiffyn ac rwy'n gallu canslo'r taliad yn hawdd os ydw i'n dymuno gwneud. Mae pawb arall rwy'n ei ddefnyddio ar-lein yn caniatáu debyd uniongyrchol. Pam mae hyn yn wahanol?

Gall pob unigolyn ganslo'r taliad cylchol ar unrhyw adeg drwy ganslo'i gerdyn os oes angen gwneud hyn ei hun. Dyma'r peth gwaethaf a allai ddiwydd ac ni fyddem yn disgwyl cyrraedd y cam hwn byth. Mae ECP yn darparu gwasanaeth ar gyfer y Brifysgol ac maent yn cymryd cyfarwyddyd yn unol â hynny.

Sut gallaf i wirio bod fy nghyfrif yn gyfredol?

1. Mewngofnodwch i'r system: <http://ecp.permit.eurocarparks.com> (dolen yng nghornel dde uchaf y sgrin)
2. Gwiriwch fod eich cerbyd wedi'i gofrestru'n gywir a bod y blwch yn y golofn 'Cychwyn' (activate) wedi'i dicio.
3. Cliciwch 'Ymlaen' (proceed) ar waelod y dudalen
4. Bydd y sgrin nesaf naill ai'n cadarnhau eich bod wedi talu popeth hyd yn hyn, neu'n rhoi cyfarwyddiadau pellach ynghylch taliadau y mae angen eu gwneud.

Sut gallaf i apelio fy nhocyn

Os credwch fod hysbysiad taliadau parcio wedi'i gyhoeddi'n anghywir, ceir manylion y broses apelio ar y tocyn.